CADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Y Parch. Ddr. Andras Iago
Ffôn- 07778511672 *Ebost-* andrasiago@outlook.com
Chwefror 2019 *Rhif 090*

Mae'r eira yn ôl! Neithiwr bu'n pluo eira, a heddiw mae'r llawr yn wyn. Mae'r eira nôl - yn harddwch i rai, yn lond trol o drafferth i eraill, a hynny bron i fis yn hwyrach na breuddwyd Bing Crosby.

Buan iawn y caiff pawb ddigon ar yr hen slwtsh brown ar y ffyrdd a'r palmentydd. Ond am eiliad, pan fydd yr eira'n disgyn, daw rhyw lonyddwch rhyfedd dros y wlad. Yr unig beth sydd i'w glywed yw sŵn y plu mân, rhyw sŵn fel curiad adain aderyn.

Mae'r gair 'eira' yn ymddangos 23 o weithiau yn y Beibl. Peth digon anarferol yw eira yn Israel, ond mae'n digwydd o dro i dro – roedd Jerusalem yn wyn am gyfnod yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Ymhlith y 23 mae'r adnod hon o ddechrau llyfr Eseia:

> Dewch, gadewch i ni ddeall ein gilydd,"—meddai'r ARGLWYDD."Os ydy'ch pechodau chi'n goch llachar, gallan nhw droi'n wyn fel yr eira; os ydyn nhw'n goch tywyll, gallan nhw fod yn wyn fel gwlân (1:18).

Roedd cyfnod dechrau gweinidogaeth Eseia'n gyfnod arbennig i'w gynulleidfa. Mae'n siŵr fod llawer o bobl Jwda ar ben eu digon bryd hynny: roedd y gwledydd oedd fel arfer yn trio eu concro yn rhy brysur yn sortio'u dadleuon mewnol. Ond er bod pethau'n edrych yn reit dda ar yr wyneb, roedd Duw yn gweld sut oedd pethau go iawn yn y wlad. Roedd y bobl wedi troi cefn arno. Er bod y bobl yn dod ac yn moli Duw yn ôl eu harfer, roedd eu calonnau nhw ymhell i ffwrdd.

Golchi'n 'wyn fel yr eira'. Dyna mae Duw'n cynnig i bob un ohonom. Mae'n gofyn i ni edifarhau – yn llythrennol, troi oddi wrth yr hen, gan gydnabod ein bai a'n hangen am faddeuant. I bob un sy'n troi ato mae'n addo'r un fath – dechrau newydd lle mae'n golchi'n lân a newydd, ac mae'n addo'i Ysbryd i'n nerthu a'n cynnal wrth i ni ei ddilyn. Sut all Duw wneud hyn? Mae'r emyn fendigedig yma'n dweud sut – trwy groes Iesu.

Fe roes ei ddwylo pur ar led,
Fe wisgodd goron ddrain,
Er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn,
Fel hyfryd liain main.

Dyna beth ydi newydd da go iawn!

DIGWYDDIADUR

CINIO'R FRO

Cynhelir y Cinio nesaf ar Dydd Gwener, Chwefror 8fed yn y Capel Mawr am 12.00.

OEDFA'R FRO yng Nghapel Gellifor, Chwefror 17fed, am 10 y.b. Bydd gweithgareddau i blant yn cyd-redeg â'r oedfa – croeso cynnes i bawb!

ASTUDIAETH FEIBLAIDD

Bydd yna Astudiaeth Feiblaidd ar y 6ed a'r 20fed o Chwefror yn festri Capel Trefnant am 1.30 y.p. Croeso cynnes i bawb!

CIC

Bydd Clwb Ieuenctid yn cael ei gynnal yn Festri Llandyrnog rhwng 7-8.30 ar yr 8fed a'r 22ain o'r mis. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Andras.

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Sul, Chwefror 3ydd
9.45 – Parch Andras Iago – (Cymun)
Dydd Llun, Chwefror 11
Cinio Cynnil yn y festri – 12.00- 1.00. Croeso cynnes i bawb!
Dydd Sul, Chwefror 17
10.00 Oedfa'r Fro – Gellifor.
Dydd Sul, Chwefror 24
10.00 – Parch. Nesta Davies

CAPEL BRWCWS

Dydd Sul, Chwefror 3ydd
Ysgol Sul am 10.00
Mr Richard Jones am 2.00
Dydd Sul, Chwefror 10ed
Ysgol Sul am 10.00
Oedfa Gymun - Parch. Andras Iago 2.00
Dydd Sul, Chwefror 17eg
Oedfa'r Fro - Capel Gellifor
Dydd Sul, Chwefror 24ain
Ysgol Sul am 10.00
Mr Gwyn Evans am 2.00

Nos Lun, Chwefror 11
Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws.
Sgwrs a sleidiau gan Berwyn Evans, Llansannan:
Dyffryn Aled fel carchar i Almaenwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf'

Nos Fercher, Chwefror 27ain

Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws, 7.00 y.h.
"Halen a Finegr" - Maureen Hughes a Grace Roberts.

Dymuniadau gorau i Bleddyn Williams yn ei gartref newydd. Diolch yn fawr am ei holl waith fel blaenor, fel athro Ysgol Sul ac am ei gyfeillgarwch. Bydd bwlch mawr ar ei ôl.

Rydym yn falch o glywed fod Eddie Hughes yn gwella ar ôl rhai wythnosau o salwch, ac hefyd fod Lis Edwards yn gwella wedi cael triniaeth ar ei chlun.

CAPEL Y DYFFRYN

Dydd Sul, Chwefror 3ydd am 9.45 yb
Mr. Dafydd Timothy
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb
Emyn a Darllen - Nia
Emyn a Darllen Plant - Nanw/Malan
Organ - Alaw
Blodau - Nyn

Nos Lun, Chwefror 4ydd am 7 yh
Sgwrs gan Mr. John Rowlands

Dydd Sul, Chwefror 10fed am 11 yb
Parch Huw Dylan Jones
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 10.30 yb
Emyn a Darllen - Alaw/Rheinallt
Emyn a Darllen Plant - Elinor/Anna
Organ - Anwen
Blodau - Alaw

Dydd Sul, Chwefror 17fed am 10yb
Oedfa'r Fro yn Gellifor

Nos Lun, Chwefror 18fed am 7 yh
Sgwrs gan Heledd Iago

Dydd Sul, Chwefror 24ain am 9.45 yb
Gweinidog - Parch Andras Iago
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb
Emyn a Darllen - Myfanwy
Organ - Ann
Blodau - Myfanwy

GELLIFOR

Dydd Sul, Chwefror 3ydd
11.00 - Dafydd Timothy
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Bryn Bedw
Offeryn – Nia
Bloda –Bryn Bedw

Dydd Sul, Chwefor 10fed
9.45 – Parch Huw Dylan D. Jones
Llywydd – Glen
Offeryn – Alaw
Blodau – Llinos

Dydd Sul, Chwefror 17eg
10.00 - Oedfa'r Fro –
Llywydd – Gareth
Gwasanaeth Dechreuol – Hafod y Coed
Offeryn – Mrgaret
Blodau - Llinos

Dydd Sul, Chwefror 24ain
11.00 – Gweinidog
Llywydd - Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Gellifor
Offeryn – Nia
Blodau - Margaret

Y FRON

Llywydd y Mis – Wendy Lloyd Jones

DIM OEDFA NOS YN YSTOD MIS CHWEFROR

Dydd Sul, Chwefror 3ydd
10.00 – Y Fron – Mr Richard Jones, Bethel
Dydd Sul, Chwefror 10fed
11.00 – Capel Mawr – Bugail (Cymun)
Dydd Sul, Chwefror 17eg
10.00 – Y Fron - Oedfa'r Fro - Gellifor
Dydd Sul, Chwefror 24ain
10.00 Y Fron – Mr Gwyn Evans, Llysfaen

Organyddion – Iona Edwards ac Eiri Jones
Blodau – yn gyfrifol Mrs. Pamela Lloyd
3ydd – Er cof am Iola Richards
24ain – Pamela Lloyd
Croesawu
3ydd – John Geraint Jones
24ain – Gwyrfai Jones

Cynhelir Cyfarfod Chwiorydd y Fron a'r Brwcws nos Fercher Chwefror 27ain pryd y cawn sgwrs ar rhinweddau Halen a Finegr gan Maureen Hughes a Grace Roberts, Llanrwst.

Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws.
Sgwrs a sleidiau gan Berwyn Evans, Llansannan:
'Dyffryn Aled fel carchar i Almaenwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.'
Nos Lun, Chwefror 11eg. am 7yh

Bore Llun Ionawr 14eg fe gawsom newyddion trist am farwolaeth Anwen Williams. Yr oedd Anwen yn ffyddlon i'r oedfa ar nos Sul ac hefyd i holl o'r cyfarfodydd cymdeithasol yr Eglwys. Er nad oedd iechyd Anwen yn caniatau iddi fynychu'r capel yn ddiweddar, roedd bob amser a diddordeb ym mhob peth oedd yn cael ei gynnal. Cydymdeimlwn a'i theulu a'i ffrindiau oll.

Llongyfarchiadau i Gwenda Owens ar ddod yn nain – pob dymuniad da iddynt fel teulu.

Y CAPEL MAWR A SEION

DALIER SYLW

**Dim ond oedfaon yn y bore fydd yna yn ystod Chwefror.
**Cofiwch pan fo'r Gweinidog gyda ni yn y bore- yn Y Capel Mawr neu'r Fron- bydd yr oedfa am 11am.

Dydd Sul, Chwefror 3
10am – Y Fron – Mr Richard Jones, Bethel
Dydd Llun, Chwefror 5
Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn – 1.30pm
Dydd Sul, Chwefror 10
11am – Y Capel Mawr – Y Bugail (Cymun)
Dydd Sul, Chwefror 17
10am – Oedfa'r Fro yng Ngellifor
Dydd Mawrth, Chwefror 19
Yr Aelwyd am 2pm – Mr Goronwy Wynne, Licswm, yn trafod Blodau Gwyllt.
Dydd Sul, Chwefror 24
10am - Y Fron – Mr Gwyn Evans

Llywydd Y Mis: – Mr Gwilym Luke Jones
Casglyddion/ Wrth y Drws:- Gwirfoddolwyr
Organydd/ Cyfeilydd:- Chwefror 10– Mrs Catrin Warren
Blodau
Chwefror 10 – teulu 34 Ffordd Colomendy
Llestri'r Cymun
Mrs Dorothy Rogers
Mrs Kitty Williams

Llety'r Pregethwyr
Chwefror 24 - Y Capel Mawr

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Mr David John Williams yn ei brofedigaeth o golli'i frawd. Meddyliwn amdano yn ein gweddïau.

Yr Aelwyd

Croesawyd bawb i gyfarfod mis Rhagfyr gan Helena Williams, a chroeso arbennig i'r gwr gwadd y Parchedig Ifor ab Gwilym Abergele. Cawsom brynhawn arbennig o ddifyr yn gwrando ar ei sgwrs ar "Naws y Nadolig". Roedd wedi dod a darlleniadau Nadoligaidd diddorol iawn. Clywsom gerdd ei frawd Gwyn ap Gwilym "Ymsom Joseff" oedd yn rhoi golwg wahanol i ni o stori'r geni. Yna ei ail ddewis oedd detholiad o nofel Islwyn Ffowc Ellis "Yn ol I Leifior" sef hanes Greta

un noswyl Nadolig. Myfyrdod ar Nadolig ym 1806 gan Gruffudd John Roberts, Ficer Conwy pan foddwyd chwech o ddynion wrth groesi'r afon Conwy mewn cwch cyn i'r bont gael ei adeiladu, a'r neges fawr "llawenydd pont yw llawenydd y Nadolig"

A'r stori olaf ddarllenodd oedd un o straeon T. Llew Jones, " Yr Hen Longwr", stori am noswyl Nadolig eto yn gyrru dipyn o ddwr oer lawr ein cefnau at y diwedd gyda'r tro yn ei chynffon.

Detholiad da iawn a gwahanol, wedi eu darllen yn berffaith gan ein gwr gwadd. Diolchwyd iddo gan y Parch. Nesta Davies, a diolch i bawb gyfranodd at y bwyd a'r gweini. Braf iawn oedd cael sgwrsio o gwmpas y byrddau.
Gwr a gwraig ddaeth atom ym mis Ionawr, sef Gwilym ac Edna Williams. Croesawyd bawb gan Rhiannon Wynne yr is lywydd.

Cyflwynodd Gwilym ac Edna Williams, y ddau yn bobl brysur iawn yn y Capel a gyda gwaith elusenol. Roedd ganddynt gwis amrywiol a diddorol iawn wedi ei baratoi ar ein cyfer, a bu llawer o grafu pen! Y pynciau oedd y Nadolig, cyffredinol a bwyd a diod. Yn sicr fe wnaeth pawb ddysgu llawer.
Diolchwyd i bawb gan Lilian Jones. Diolch hefyd i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned ar ein cyfer.

Mis Chwefror
Chwefror 11..... Cyfarfod Gweddi am 1.30
Chwefror 19..... Yr Aelwyd yn dathlu Gwyl Ddewi am 2 o'r gloch.
Bydd Dr. Goronwy Wynne yn dod atom i siarad am ei lyfr Blodau Cymru ennillodd wobr Llyfr y Flwyddyn llynedd. Croeso cynnes i bawb ddod atom, bydd te bach ar ol.

LLANRHAEADR, PRION A'R GLYN

Dydd Sul, Chwefror 3ydd
11.00 - Pentre – Gweinidog – Gwasanaeth Teuluol – Paned i ddilyn
Dydd Sul, Chwefror 10fed
9.45 - Prion - Cyfarfod Gweddi
Dydd Sul, Chwefror 17eg
10.00 - Gellifor - Oedfa'r Fro
Dydd Sul, Chwefror 24ain
9.45 - Pentre - Cyfarfod Dydd Gweddi Byd Eang

COLLI AELOD - Trist iawn gennym yn y Pentre a Phrion glywed am farwolaeth Mrs. Morfydd Evans, Pont y Bedol (Groes Gwtta a Phen Caeau gynt). Roedd yn wraig addfwyn ac yn fam, nain a hen nain annwyl iawn. Yr oedd yn aelod ffyddlon i'r Capel a'r gymdeithas oll. Daeth cynulleidfa gref ynghyd i'w gwasanaeth a chafwyd teyrnged arbennig i gofio am gymeriad hoffus a chyfeillgar. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf à'i theulu a'i ffrindiau a chymdogion ym Mhont y Bedol, ble bydd colled mawr ar ei hôl.

CYDYMDEIMLO - Ein cofion a'n cydymdeimlad gyda Carys a'r teulu yn eu tristwch o golli Alwena ei chyfnither cyntaf.

CYMDEITHAS -Nos Lun 25ain o Chwefror, rydym am fynd gyda'n gilydd i Ddramau Capel Bethania, Rhuthun. Tocynnau ar gael am £5.00 a £1 i blant, a fydd cludiant wedi ei drefnu. Cysylltwch â Carys am docyn- croeso cynnes i bawb.

Y GLYN

Dydd Sul, Chwefror 24
2.00 – Parch Andras Iago

Ar nos Sul, Rhagfyr 23, cynhaliwyd ein Gwasanaeth Nadolig wedi ei drefnu gan Brenda gyda'r bobl ifanc yn cymeryd rhan. Croesawodd Marian Andras, Heledd a Mabon bach, ynghyd â theulu a ffrindie i'r gwasanaeth, a diolchodd i bawb a gymerodd ran, ac am gyfrannu tuag at y bwyd, a dymunwyd holl fendithio yr Ŵyl i bawb mewn gweddi.

TREFNANT

Llywydd y Mis : TUDOR JONES
Dydd Sul ,Chwefror 3ydd
10.00 - Y Parch. Nesta Davies 11.15 YSO
3.00 - Y Parch Nesta Davies
Blodau - Beryl Roberts
Dydd Sul, Chwefror 10 fed
9.45 - Bugail 11.15 YSO
3.30 - Bugail
Blodau - Beryl Roberts
Dydd Sul,Chwefror 17ed
10.00 : Oedfa'r Fro yn GELLIFOR
Dydd Sul, Chwefror 24ain
10.00 -Mr Meurig Edwards gyda phaned i ddilyn
3.00 : Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Dilys Hughes

Cynhelir Ysgol Sul y Plant yn ystod gwasanaeth y bore dan ofal Angharad Ellis ac Anwen Evans.

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU Mae'r cyfarfodydd prynhawniau Llun wedi ail-ddechrau ar bnawn Llun yn y festri. Mae yma gyfle i addoli, creu, cymdeithasu yn ogystal a mwynhau cwmni a phaned. Croeso cynnes i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL Nos Wener, Chwefror 15ed, disgwylir Alwyn Jones atom i roi sgwrs a llywyddir y noson gan Gareth Roberts. Ymhen pythefnos, ar y cyntaf o Fawrth, byddwn yn dathlu Gwyl Ddewi yng nghwmni Sam Pritchard. David, y Siop Sglodion, fydd yn arlwyo gydag Eleri Jones yn llywyddu'r noson. Croeso cynnes i bawb i'r ddwy noson.

DYMUNIADAU GORAU i'n haelodau i gyd gyda chofion arbennig at y rhai sy'n methu oedfaon a chymdeithas y Suliau ar hyn o bryd.

NEGES NESTA

Mae'r Nadolig bellach yn teimlo'n bell yn ôl, a rhyfeddwn at gymaint o weithgaredd aeth ymlaen yn yr ardal yn y gwahanol gapeli ac ysgolion yn rhoi Stori'r Geni yn eu ffyrdd eu hunain.
Bu ieuenctid a phlant yr ysol Sul Capel Trefnant yn ddiwyd iawn yn cyflwyno gwir ystyr y Nadolig yn eu gwasanaeth dan arweiniad Angharad Ellis gyda Elizabeth Williams ar y piano, a chafwyd paned a mins pei i orffen.

Bu'r ddau dîm Agor y Llyfr yn brysur yn rhoi hanes y Nadolig cyntaf yn ysgolion Twm o'r Nant, Tremeirchion a Phant Pastynog, ac wedi'r Nadolig cafwyd stori'r Bachgen yn y Deml a Bedydd Iesu. Yn ystod gweddill y tymor byddwn yn cyflwyno storiau yn ymwneud a'r Grawys a'r Pasg. Gobeithiwn gael cynnwys lluniau maes o law ond allwn ni ddim ar hyn o bryd oherwydd diogelu data.

Ar ganol dydd ddiwrnod Nadolig daeth deugain o bobl i Eglwys Sant Thomas yn Ninbych i gael pryd blasus a chwmni. Diolch i'r llu o wirfoddolwyr helpodd drwy roi pas iddynt fynd yno, cyfrannu bwyd a gweini, neu drefnu i gludo prydau i ryw 10 oedd ddim yn ddigon da i fynychu. Daeth Ifor John Jones a'i ferch Bethan i ddifyrru, a chafwyd orig hyfryd yn eu cwmni yna canu carolau gyda Nesta Davies yn cyfeilio.. Diolch i bawb am roi o'i hamser i wneud y digwyddiad yn un llwyddiannus.

Ym Mhwyllgor Gweithgareddau'r Fro penderfynnwyd na chawn Wyl Flodau dros y Pasg eleni ond y bydd cyfle i arddangos Crefftau a gynhyrchir yn y Fro ar gyfer achosion da yng Nghapel Trefnant ar **Fai 10fed** pryd y ceir Arddangosfa o waith Plant/ Oedolion yr Henaduriaeth ar y Thema **Myfi Yw** a'r noson Wobrwyo Croeso i unrhyw gapel sy'n ymgynnull i gyflwyno gwaith plant i'w gyflwyno rhwng 7-8.00 ar Nos Iau 8fed a derbynnir gweithgaredd gwau/gwnio/ crefftio ar un amser. Croeso i gyflwyniadau blodau ar y thema **Myfi yw** gyrraedd am 5.30 ar y 10fed.

Os hoffech weld Coleg Trefeca ar ei newydd wedd gyda ystafelloedd en-suite a chael ychydig ddyddiau o wyliau/myfyrio yno, cysylltwch â mi.

Nesta

Newyddion rhifyn Mawrth o'r Cadwyn Bro, erbyn dydd Gwener Chwefror 15
e-bost : **meinididdos13@gmail.com**
neu: 01745890417